



Llywodraeth Cymru  
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Astudiaeth Gwella coridor Glannau Dyfrdwy yr  
A55/A494/A548

Datganiad o ganlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus

Medi 2017

(Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol)

**ASTUDIAETH GWELLA CORIDOR GLANNAU DYFRDWY YR A55/A494/A548  
DATGANIAD O GANLYNIADAU'R  
YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS**

**MEDI 2017**

**Cynnwys:**

- 1 CYFLWYNIAD**
- 2 DATBLYGU A GWERTHUSO'R OPSIYNAU**
- 3 YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS**
- 4 DADANSODDIAD O'R YMATEBION**  
Dadansoddiad o'r Ymatebion i'r Holiadur  
Safbwyntiau Rhanddeiliaid a Sefydliadau eraill
- 5 CANLYNIADAU**
- 6 Y RHESYMAU DROS DDEWIS Y LLWYBR A FFEFRIR**
- 7 PENDERFYNIAD YSGRIFENNYDD Y CABINET**
- 8 DIOGELU'R LLWYBR A FFEFRIR**
- 9 BETH SY'N DIGWYDD NESAF**

**CYFEIRIADAU**

**ATODIAD A LLYFRYN A HOLIADUR YR YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS  
ATODIAD B CYNLLUN Y LLWYBR A FFEFRIR - TR111**

## 1 CYFLWYNIAD

1.1 Yn 2015 comisiynodd Llywodraeth Cymru astudiaeth i fynd i'r afael â'r problemau trafnidiaeth ar Goridor Glannau Dyfrdwy yr A55/A494/A548. Defnyddiodd yr astudiaeth hon waith a gyflawnwyd yn gynharach a oedd yn argymhell dau opsiwn o ran priffyrdd (yr Opsiwn Glas a'r Opsiwn Coch) i'w datblygu er mwyn eu gwerthuso ymhellach dan Gam 2 Arweiniad ar Arfarnu a Chynllunio Trafnidiaeth Cymru (WelTAG).

1.2 Mae'r Opsiwn Glas yn cynnwys:

- lledu llwybr yr A55/A494
- gwella'r cyffyrdd, gan gynnwys cyfnewidfa Ewloe
- ffyrdd cyswllt cyfochrog
- tynnu, addasu a gwella'r cyffyrdd
- 3 lôn i bob cyfeiriad, a
- gwella 9.8km o'r briffordd.

1.3 Mae'r Opsiwn Coch yn cynnwys:

- capasiti uwch ar hyd yr A548 presennol
- ffordd newydd rhwng yr A55 a'r A548
- addasu a gwella'r cyffyrdd
- 2 lôn i bob cyfeiriad, a
- 13km o welliant ar-lein rhannol a darn newydd o'r briffordd.

1.4 Mae'r Datganiad o Ganlyniadau hwn yn crynhoi agweddau technegol, economaidd ac amgylcheddol y cynllun, yn ogystal â'r safbwyntiau a fynegwyd yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd rhwng 13 Mawrth a 5 Mehefin 2017. Mae hefyd yn esbonio penderfyniad Ysgrifennydd y Cabinet, yn gweithredu yn rhinwedd ei swydd fel y Gweinidog dros yr Economi a'r Seilwaith.

## 2 DATBLYGU A GWERTHUSO'R OPSIYNAU

2.1 Roedd yr Astudiaeth Cyfnod Allweddol 2 yn rhoi pwyslais penodol ar yr effeithiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol – prif themâu datblygu cynaliadwy Llywodraeth Cymru.

2.2 Y prif faterion a godwyd yn yr astudiaeth oedd:

- aliniad priffordd is na'r safon ar hyd yr A494 rhwng Cyfnewidfa Ewloe yr A55 / A494 a'r A550/A5117 ar y ffin rhwng Cymru / Lloegr;
- amseroedd teithiau yn mynd yn hirach ar yr A494 gan arwain at dagfeydd ar hyd yr A494 rhwng Cyfnewidfa Ewloe a'r ffin rhwng Cymru / Lloegr;
- tagfa traffig ar y rhwydwaith o ffyrdd lleol gan fod gyrwyr yn dewis llwybrau lleol er mwyn osgoi oedi ar y rhwydwaith ffyrdd strategol;
- effeithiau niweidiol ar Holtti Cymunedau ac Ansawdd Bywyd mewn aneddiadau ac anheddau gerllaw'r A494 yn sgil traffig trwm iawn;
- diogelwch – caiff cynllun presennol y briffordd ar hyd yr A494 ei ystyried yn anniogel;
- materion gwytnwch ar hyd coridor presennol yr A55 / A494 sy'n dod i'r amlwg yn arbennig pan fydd digwyddiadau megis cerbydau'n torri i lawr neu ddamweiniau'n

digwydd, gan achosi tagfeydd ac arwain at oedi difrifol i ddefnyddwyr eraill yr A494. Mae hyn yn tynnu sylw at y diffyg llwybr gwahanol addas i anfon traffig arno.

### 2.3 Defnyddiodd yr astudiaeth egwyddorion Arweiniad ar Arfarnu a Chynllunio Trafnidiaeth Cymru (WelTAG)<sup>1</sup>.

Datblygwyd WelTAG gan Lywodraeth Cymru a'i nod yw sicrhau bod cynigion trafndiaeth y sector cyhoeddus yn cynnwys y meini prawf canlynol:

- Cyfraniad cadarnhaol at amcanion trafndiaeth;
- Gwerth da am arian;
- Manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cyffredinol;
- Y budd mwyaf a'r effaith leiaf.

### 2.4 Er mwyn mynd i'r afael â'r problemau a godwyd, ac yn unol ag amcanion y rhwydwaith strategol, nodwyd y deg Amcan Cynllunio Trafnidiaeth canlynol fel rhan o astudiaeth Cyfnod 1 WelTAG :

Amcan 1:

- Lleihau'r amrywiaeth rhwng yr amser mae'n ei gymryd i deithio a gwella gwytnwch rhwydwaith trafndiaeth coridor astudiaeth yr A55 / A494 mewn cyfnodau o alw mawr, digwyddiadau a gweithgareddau cynnal a chadw;

Amcan 2:

- Gwella'r cysylltiadau trafndiaeth i fusnesau yn ardal yr astudiaeth â chanolfannau economaidd a safleoedd cyflogaeth allweddol;

Amcan 3:

- Gwella'r mynediad rhwng safleoedd cyflogaeth ac ardaloedd dalgylchoedd y gweithlu;

Amcan 4:

- Gwella diogelwch gwirioneddol ac ymddangosiadol yn ogystal â diogelwch personol yr holl ddefnyddwyr trafndiaeth ar hyd coridor astudiaeth yr A55 / A494;

Amcan 5:

- Gwella hydreddedd ar hyd coridor yr A55 / A494 o ran dulliau heb fod yn rhai modur yn y pwynt allweddol a ddymunir;

Amcan 6

- Sicrhau bod rhwydwaith trafndiaeth ardal yr astudiaeth yn hwyluso symudiadau teithiau cenedlaethol a rhanbarthol angenrheidiol pobl a nwyddau;

Amcan 7

- Lleihau allyriadau carbon yn sgil trafndiaeth ar hyd coridor astudiaeth yr A55 / A494;

---

<sup>1</sup> Arweiniad ar Arfarnu a Chynllunio Trafnidiaeth Cymru (WelTAG), Mehefin 2008 – ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru <http://gov.wales/docs/det/policy/140923-weltag-guidance-en.pdf>

#### Amcan 8

- Lleihau'r effeithiau andwyol ar yr amgylchedd dynol gan gynnwys llygredd aer, sŵn a golau, a'r tirlun a'r treflun;

#### Amcan 9

- Lleihau'r effeithiau andwyol ar yr amgylchedd naturiol gan gynnwys ansawdd yr aer lleol, llygredd dŵr a phridd, ac effeithiau bioamrywiaeth;

#### Amcan 10

- Cynnal a chadw'r seilwaith trafndiaeth presennol ar hyd coridor astudiaeth yr A55 / A494 a'i ddefnyddio'n fwy effeithiol.

- 2.5 Mae'r dadansoddiad o'r model traffig a gynhaliwyd yn nodi bod disgwyl i deithiau priffyrdd gynyddu bob blwyddyn oni chaiff rhywbeth ei wneud am y peth. Erbyn 2037, mae disgwyl y bydd teithiau priffyrdd yn ystod cyfnodau prysuraf y bore a gyda'r nos gynyddu 16% a 14% yn eu tro. Rhagwelir y bydd teithiau trafndiaeth gyhoeddus yn lleihau 10% yn yr un cyfnod oni chaiff rhywbeth ei wneud am y peth.
- 2.6 O ganlyniad, oni wneir rhywbeth amdano, mae disgwyl y bydd mwy o dagfeydd ac y bydd teithiau'n cymryd mwy o amser ar hyd coridor yr A55/A494.
- 2.7 Mae llyfryn yr ymgynghoriad cyhoeddus yn Atodiad A yn disgrifio'r opsiynau Glas a Choch yn fwy manwl.
- 2.8 Mae'r Adroddiad Arfarnu Technegol<sup>2</sup> yn cofnodi canfyddiadau'r astudiaeth yn fanwl.

### 3 YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS

- 3.1 Fe wnaethom ymgynghori ar yr Opsiynau Glas a Choch mewn cyfnod ymgynghori o ddeuddeg wythnos a gynhaliwyd rhwng 13 Mawrth a 5 Mehefin 2017, a chafodd y ddau opsiwn ei gymharu â'r broses Gwneud y Lleiaf Posibl.
- 3.2 Darparwyd gwybodaeth am y tudalennau Ymgynghori ar wefan Llywodraeth Cymru yn ystod yr ymgynghoriad gan gynnwys holiadur dwyieithog i gasglu safbwyntiau. Roedd copïau papur o'r wybodaeth hon hefyd ar gael yn swyddfeydd a llyfrgelloedd y cyngor lleol. Er mwyn rhoi cyfle i bobl weld a thrafod yr opsiynau gyda thîm yr astudiaeth, cynhaliwyd arddangosfeydd cyhoeddus dros bum diwrnod a rhoddwyd gwybod i bobl amdanynt drwy lythyrau drwy'r post, posterï a datganiad i'r wasg yn ardal yr astudiaeth. Cyflwynodd y wasg leol hefyd erthyglau yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad a rhoddwyd sylw i gychwyn y broses yng nghynnwys y BBC am Ogledd Ddwyrain Cymru - ar y teledu ac ar-lein. Gwahoddwyd ymgynghoreion Statudol ac Anstatudol i roi eu barn hefyd.
- 3.3 Cynhaliwyd arddangosfeydd yr ymgynghoriad cyhoeddus am bum diwrnod gyda phob digwyddiad yn agored i'r cyhoedd o 10am tan 8pm. Cynhaliwyd yr arddangosfeydd yn y lleoliadau canlynol:

---

<sup>2</sup> Gwelliant Coridor Glannau Dyfrdwy yr A55/A494/A548 – Adroddiad Arfarnu Technegol, (mewn dwy gyfrol), Medi 2017

- Clwb Cymdeithasol Ewloe, Ffordd yr Wyddgrug, Ewloe, Glannau Dyfrdwy – dydd Mawrth 21 Mawrth a dydd Mercher 22 Mawrth;
  - Coleg Cambria – Ffordd Celstryn, Cei Connah, Glannau Dyfrdwy – dydd Iau 23 Mawrth – dydd Gwener 24 Mawrth;
  - Prifysgol Glyndŵr Wrecsam, Campws Llaneurgain – dydd Mercher 10 Mawrth.
- 3.4 Daeth cyfanswm o 1,842 o bobl i weld arddangosfeydd yr ymgynghoriad cyhoeddus. Erbyn diwedd y cyfnod ymgynghori cawsom 2,436 o holiaduron eu cwblhau. Roedd hyn yn cynnwys 1,036 o holiaduron papur a 1,046 o ymatebion ar-lein. O'r ymatebion ar-lein, cafodd 1,102 ohonynt eu cwblhau a 298 ohonynt wedi'u cwblhau yn rhannol. Derbyniwyd 100 o ymatebion eraill drwy lythyr gan randdeiliaid, unigolion, grwpiau â diddordeb ac awdurdodau lleol, negeseuon e-bost a dros y ffôn gyda 51 o sylwadau yn cael eu cofnodi gan staff yr arddangosfa ar ôl sgysiau gyda'r cyhoedd i nodi natur y sylwadau a gyflwynwyd. Mae crynodeb o'r safbwyntiau a fynegwyd isod ac mae adroddiad yr ymgynghoriad<sup>3</sup> yn disgrifio'r canfyddiadau'n fwy manwl.

## 4 DADANSODDIAD O'R YMATEBION

### Dadansoddiad o ymatebion yr Holiadur

- 4.1 Roedd yr holiadur yn holi pobl am broblemau canfyddedig ardal yr astudiaeth, y mesurau angenrheidiol ar gyfer gwella, beth oedd yr elfen bwysicaf iddyn nhw, a'r opsiwn roeddent yn ei ffafrio. Mae dadansoddiad o'r ymatebion i'r ddau gwestiwn ar bymtheg fel a ganlyn.

*Cwestiwn 1 – Ydych chi yn un o'r canlynol: Preswlydd yn ardal Glannau Dyfrdwy, Wedi'ch cyflogi yn ardal Glannau Dyfrdwy, Perchennog Busnes yn ardal Glannau Dyfrdwy, Myfyriwr yn ardal Glannau Dyfrdwy, Nid wyf yn byw nac yn gweithio yn ardal Glannau Dyfrdwy ond rwy'n teithio drwyddi'n rheolaidd, neu arall?*

Preswylwyr yn ardal Glannau Dyfrdwy (63.3%)

Perchennog/gweithredwr busnes yn ardal Glannau Dyfrdwy (6.1%)

Ddim yn byw nac yn gweithio yn ardal Glannau Dyfrdwy ond yn teithio drwyddi'n rheolaidd (9.6%)

Wedi'ch cyflogi yn ardal Glannau Dyfrdwy (14.8%)

Myfyriwr yn ardal Glannau Dyfrdwy (1%)

Arall 5.2%

*Cwestiwn 2 – Pa mor aml ydych chi'n teithio ar hyd pob un o'r coridorau yn ardal yr astudiaeth?*

A55/A494:

5+ diwrnod yr wythnos (57.7%)

2-4 diwrnod yr wythnos (29.3%)

<sup>3</sup> A55/A494/A548 Adroddiad Ymgynghori - Mai 2017 – ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru

Bob wythnos (9.3%)  
Bob mis (2.2%)  
Yn llai aml (1.3%)  
Byth (0.2%)

A548:

5+ diwrnod yr wythnos (24.5%)  
2-4 diwrnod yr wythnos (20.8%)  
Bob wythnos (19.9%)  
Bob mis (12.0%)  
Yn llai aml (19.1%)  
Byth (3.7%)

*Cwestiwn 3 – Ar gyfer pob un o'r coridorau rydych yn teithio arnynt, nodwch sut y byddwch yn teithio fel arfer? – i'w gadarnhau*

A55/A494

Gyrrwr car (93%)  
Gyrrwr fan/HGV (4%)  
Teithiwr mewn cerbyd (14%)  
Ar droed (6%)  
Beic (5%)  
Bws (4%)  
Arall. (1%)

A548

Gyrrwr car (92%)  
Gyrrwr fan/HGV (5%)  
Teithiwr mewn cerbyd (12%)  
Ar droed (2%)  
Beic (3%)  
Bws (3%)  
Arall. (1%)

Mae'r dull y bydd yr ymatebwyr yn ei ddefnyddio yn debyg ar gyfer y ddau lwybr, gyda'r rhan fwyaf o ymatebwyr yn teithio fel gyrrwr mewn car, sy'n cyfateb i ychydig dros 90% o'r dulliau a ddewisir. Mae tua 13% o ddefnyddwyr y llwybrau hyn yn deithwyr mewn ceir gyda thua 5% ohonynt yn yrwyr fan/HGV. Mae cerdded a beicio yn fwy cyffredin ar yr A55/A494, gyda'r ddau yn cyfateb i tua 5% o'r dull a ddewisir o'i gymharu â thua 3% ar yr A548. Mae defnyddio bws yn cyfateb i tua 4% o'r dulliau a ddewisir ar y ddau lwybr.

O'r ymatebwyr sy'n defnyddio'r A55/A494 o leiaf bum diwrnod yr wythnos, y dull mwyaf cyffredin yw gyrrwr car, sy'n cyfateb i 71%. Mae defnyddio cerbyd preifat yn cynyddu i 81% o deithiau dyddiol pan gaiff teithwyr mewn ceir eu cynnwys. Mae 6% o'r bobl sy'n defnyddio'r A55/A494 o leiaf bum diwrnod yr wythnos yn gwneud hynny ar droed, gyda 5% yn beicio ar y llwybr; mae 3% yn teithio ar y llwybr ar fws.



Mae'r dull a ddewisir ymysg defnyddwyr rheolaidd yr A548 yn adlewyrchu dull yr A55/A494 gyda gyrrwr car yn cyfateb i 74% o'r dull a ddewisir bob dydd, ac mae hyn yn cynyddu i 82% pan gaiff teithwyr eu cynnwys. Mae pedwar y cant o bobl sy'n defnyddio'r A548 o leiaf bum diwrnod yr wythnos yn gwneud hynny ar droed gyda thri y cant ohonynt yn beicio; mae 4% yn defnyddio'r bws.

*Cwestiwn 4 – Pa mor bwysig i chi yw bod y rhwydwaith trafndiaeth yn yr ardal hon yn cael ei wella?*

Pwysig iawn (55%)  
 Pwysig (28%)  
 Y naill na'r llall (9%)  
 Ddim yn bwysig (5%)  
 Ddim yn bwysig o gwbl (2%)

Nododd 83% o'r ymatebwyr ei bod yn bwysig gwella'r rhwydwaith trafndiaeth gyda dros hanner ohonynt (55%) yn nodi bod hyn yn 'bwysig iawn'.

Pan fydd pa mor aml y defnyddir y llwybr yn cael ei gymharu ochr yn ochr â pha mor bwysig yw gwella rhwydwaith trafndiaeth yr ardal, mae'n dangos bod defnyddwyr yr A548 yn fwy tueddol o gredu ei bod yn "Bwysig iawn" gwella'r rhwydwaith trafndiaeth, waeth pa mor aml maent yn defnyddio'r llwybr. Mae defnyddwyr yr A55/A494 yn llai tebygol o awgrymu bod angen gwella'r llwybr, oni bai eu bod yn ei ddefnyddio bob wythnos o leiaf.

Nododd dros 50% o'r cyfranogwyr ym mhob dull a llwybr ei bod yn "Bwysig iawn" neu'n "Bwysig" gwella'r rhwydwaith yn yr ardal. Dim ond saith y cant o ddefnyddwyr yr A55/A494 a'r A548 nododd fod gwella'r rhwydwaith yn eu hardal "Ddim yn bwysig" neu "Ddim yn bwysig o gwbl".

*Cwestiwn 5 – Pa mor dda ydych chi'n meddwl mae'r OPSIWN GLAS yn mynd i'r afael ag Amcanion Cynllunio Trafndiaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y prosiect hwn?*

Amcanion Trafndiaeth Cynllunio	Da iawn	Da	Y naill na'r llall	Ddim yn dda	Ddim yn dda o gwbl	Ddim yn gwybod
<i>Darparu amseroedd teithio mwy dibynadwy</i>	17.3%	12.3%	9.5%	19%	39.6%	2.4%
<i>Gwella cysylltiadau busnes</i>	15.9%	11.9%	11.9%	19.9%	36.5%	3.9%
<i>Ei gwneud yn haws i bobl fynd i'r gwaith</i>	16.7%	12.9%	11.5%	17%	39.4%	2.4%
<i>Gwella diogelwch ar hyd y coridor</i>	15.9%	13.5%	11.9%	14.8%	40.6%	3.4%
<i>Galluogi cerddwyr/beicwyr/marchogion i groesi'r A55/A494 yn haws</i>	56.3%	5.9%	6.6%	7.6%	17.9%	5.7%
<i>Gwella teithiau i bobl a nwyddau sy'n defnyddio'r coridor fel rhan o daith ranbarthol neu genedlaethol</i>	16.1%	13.7%	10.7%	16.3%	39.7%	3.5%

<i>hir</i>						
<i>Lleihau allyriadau carbon cerbyd</i>	9.3%	5.9%	13.8%	12.5%	50.9%	7.6%
<i>Lleihau'r effaith ar bobl leol (llygredd aer, sŵn, golau)</i>	10%	7.5%	7.8%	12.1%	59.4%	3.1%
<i>Lleihau'r effaith ar yr amgylchedd naturiol (ansawdd dŵr, bioamrywiaeth, tirlun)</i>	12.7%	8.4%	14.0%	14.7%	44%	6.2%
<i>Defnyddio'r seilwaith trafnidiaeth presennol yn y ffordd orau bosibl</i>	19.3%	10.4%	9.5%			2.8%

Ni chafodd yr Opsiwn Glas sgôr "Da" neu "Da iawn" gan fwy na 30% o'r ymatebwyr yn 9 o'r 10 amcan.

Yr unig amcan lle mae'r Opsiwn Glas yn cael sgôr da yw'r un sy'n nodi ei fod yn galluogi defnyddwyr di-fodur i groesi llwybr yr A55/A494 yn ddiogel. Ar gyfer hyn, nododd 62% o bobl eu bod yn credu y byddai'r Opsiwn Glas yn mynd i'r afael â'r mater hwn yn "dda" neu'n "dda iawn".

*Cwestiwn 6 – Pa mor dda ydych chi'n meddwl mae'r OPSIWN COCH yn mynd i'r afael ag Amcanion Cynllunio Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y prosiect hwn?*

<b>Amcanion Cynllunio Trafnidiaeth</b>	<b>Da iawn</b>	<b>Da</b>	<b>Y naill na'r llall</b>	<b>Ddim yn dda</b>	<b>Ddim yn o gwbl</b>	<b>Ddim yn gwybod</b>
<i>Darparu amseroedd teithio mwy dibynadwy</i>	54.3%	21.9%	4.6%	5.7%	11.2%	2.5%
<i>Gwella cysylltiadau busnes</i>	55.1%	20.3%	5.3%	5.4%	10.7%	3.2%
<i>Ei gwneud yn haws i bobl fynd i'r gwaith</i>	51.9%	21.8%	6.8%	6.1%	10.4%	3%
<i>Gwella diogelwch ar hyd y coridor</i>	51.5%	20.1%	8.2%	5.5%	10.4%	4.3%
<i>Galluogi cerddwyr/ beicwyr/ marchogion i groesi'r A55/A494 yn haws</i>	34.9%	18.2%	15.1%	5.6%	11.7%	14.4%
<i>Gwella teithiau i bobl a nwyddau sy'n defnyddio'r coridor fel rhan o daith ranbarthol neu</i>	58.8%	18.1%	4.0%	5.2%	11.3%	2.6%

<i>genedlaethol hir</i>						
<i>Lleihau allyriadau carbon cerbyd</i>	41.7%	17.0%	13.5%	6.9% (144)	12.9%	8.0%
<i>Lleihau'r effaith ar bobl leol (llygredd aer, sŵn, golau)</i>	53.5%	16.7%	5.5%	5.1%	16.2%	3.0%
<i>Lleihau'r effaith ar yr amgylchedd naturiol (ansawdd dŵr, bioamrywiaeth, tirlun)</i>	36.0%	15.8%	12.1%	9.1%	19.8%	7.2%
<i>Defnyddio'r seilwaith trafnidiaeth presennol yn y ffordd orau bosibl</i>	50.8%	17.5%	5.3%	6.2%	16.8%	3.5%

Sgoriodd yr Opsiwn Coch yn well yn naw o'r deg amcan, gyda dros 50% o bobl yn nodi eu bod yn meddwl y byddai'r Opsiwn hwn yn mynd i'r afael â'r amcanion hyn yn "Dda" neu'n "Dda iawn".

Nododd pum deg tri y cant o ymatebwyr y byddai'r Opsiwn Coch yn galluogi defnyddwyr di-fodur i groesi llwybr yr A55/A494 yn ddiogel yn "dda" neu'n "dda iawn".

*Cwestiwn 7- Pa opsiwn ydych chi'n ei ffafrio o ran:*

*Gwella'r economi leol*

Llwybr Glas (21.6%)  
Llwybr Coch (71.6%)  
Gwneud dim byd (6.8%)

*Effeithiau amgylcheddol (sŵn, ansawdd aer, bioamrywiaeth)*

Llwybr Glas (21.2%)  
Llwybr Coch (71.8%)  
Gwneud dim byd (7.1%)

*Effeithiau ar gymdeithas (diogelwch, cynhwysiant cymdeithasol, ffitrwydd)*

Llwybr Glas (21.1%)  
Llwybr Coch (71.3%)  
Gwneud dim byd (7.7%)

Yr Opsiwn Coch a ffefrir ar gyfer y tair elfen, gyda dros 70% o'r ymatebwyr yn ei ffafrio. Dewisodd cyfran fach (rhwng 7% ac 8%) o'r ymatebwyr yr opsiwn 'gwneud dim byd'.

*Cwestiwn 8 – Pa opsiwn ydych chi'n ei ffafrio yn gyffredinol – yr Opsiwn Glas, yr Opsiwn Coch neu Gwneud dim byd?*

Opsiwn glas (21%)  
Opsiwn coch (74%)  
Gwneud dim byd (5%)

Pan fydd y dewisiadau o ran opsiynau yn cael eu hystyried yn erbyn math o ddefnyddiwr y llwybr, mae'r rhaniad rhwng y dewisiadau o ran Opsiynau yn llai amlwg. Mae ymatebwyr sy'n byw, yn gweithio ac yn astudio yn ardal Glannau Dyfrdwy yn gryf o blaid yr Opsiwn Coch, gydag 80% o breswylwyr yn dewis hwn fel yr Opsiwn a ffefrir ganddynt, a dim ond 16% sy'n ffafrio'r Opsiwn Glas. Er bod y rheini nad ydynt yn gweithio nac yn byw yng Nglannau Dyfrdwy ond yn teithio drwy'r ardal yn rheolaidd dal yn ffafrio'r Opsiwn Coch (52%) yr ymatebwyr hynny sydd fwyaf cefnogol i'r Opsiwn Glas, gyda 41% o'r grŵp hwn yn ei gefnogi. Caiff y gwahaniaeth hwn rhwng preswylwyr a phobl nad ydynt yn breswylwyr ei adlewyrchu hefyd pan ofynnwyd i'r cyfranogwyr am resymau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ar wahân. Er gwaethaf y gwahaniaethau hyn, yr Opsiwn Coch yw'r Opsiwn a ffefrir gan y rhan fwyaf o ymatebwyr ym mhob un o'r grwpiau demograffeg.

*Cwestiwn 9 – Pam eich bod yn ffafrio'r opsiwn rydych wedi'i ddewis yn y cwestiwn diwethaf?*

Fe wnaeth 205 o'r ymatebwyr (10% o'r cyfanswm) ailddatgan eu bod yn ffafrio'r Opsiwn Coch ac fe wnaeth 47 o'r ymatebwyr (2% o'r cyfanswm) ailddatgan eu bod yn ffafrio'r Opsiwn Glas. Awgrymodd hanner cant o'r ymatebwyr (2% o'r cyfanswm) nad yr Opsiwn Glas oedd yr ateb i broblemau traffig yr ardal. Awgrymodd llai o ymatebwyr (34; 2% o'r cyfanswm) nad yr Opsiwn Coch oedd yr ateb. Defnyddiodd 137 o'r ymatebwyr (6% o'r cyfanswm) y gofod i awgrymu ffyrdd eraill o ddefnyddio'r arian megis gwella rhannau eraill o'r rhwydwaith ffyrdd neu helpu pobl ddigartref.

*Cwestiwn 10 – Ydych chi'n wryw, yn fenyw neu a fyddai'n well gennyh beidio â dweud?*

Gwryw (53%)  
Benyw (45%)  
Mae'n well gennyf beidio â dweud (2%)

*Cwestiwn 11 – Nodwch ym mha fand oedran ydych chi?*

Dan 18, (1%)  
Rhwyng 18 a 25 (3%)  
Rhwyng 25 a 44 (26%)

Rhwng 45 a 64 (38%)  
Rhwng 65 a 74 (22%)  
Dros 75 (7%)  
Mae'n well gennyf beidio â dweud (4%)

*Cwestiwn 12 – Beth yw eich statws gwaith?*

Cael fy nghyflogi llawn amser (57.8%)  
Myfyriwr (2.3%)  
Wedi ymddeol (33.1%)  
Gofalu am y cartref (1.6%)  
Di-waith (0.2%)  
Arall (3.1%)  
Mae'n well gennyf beidio â dweud (1.9%)

*Cwestiwn 13 – Beth yw cod post eich cartref? Dim ond at ddibenion mapio y bydd hwn yn cael ei ddefnyddio; ni fyddwn yn cysylltu â chi.*

Mae'r dadansoddiad o'r codau post a nodwyd gan yr ymatebwyr yn dangos bod clwstwr mawr o gefnogaeth i'r Opsiwn Coch o amgylch y llwybr glas presennol ac i'r gwrthwyneb. Fodd bynnag, dylid nodi mai dim ond un neu ddau o ymatebion sydd wedi'u cyflwyno o sawl cod post.

Pan gafodd y deg cod post a luniodd y cyfraddau ymateb uchaf eu plotio, daeth i'r amlwg bod y rheini sy'n byw wrth ymyl y llwybr glas presennol yn ffafrio'r Opsiwn Coch, a bod y rheini sy'n byw wrth ymyl yr Opsiwn Coch yn ffafrio'r Opsiwn Glas. Mae'r dadansoddiad yn dangos bod yr ymatebwyr yn y cod post o amgylch Ewloe, er enghraifft, yn ffafrio'r Opsiwn Coch, gyda 710 o bobl yn ffafrio'r Opsiwn Coch o'i gymharu â 44 yn ffafrio'r Opsiwn Glas. Yng nghod post rhan newydd o ffordd yr Opsiwn Coch, roedd 130 o ymatebwyr yn ffafrio'r Opsiwn Glas o'i gymharu â 22 yn ffafrio'r Opsiwn Coch.

*Cwestiwn 14 – Oes gennych ragor o sylwadau?*

O dan rhagor o sylwadau, nododd yr ymatebwyr eu prif reswm i esbonio eu rhesymeg y tu ôl i'r Opsiwn roeddent yn ei ffafrio yn gyffredinol, sef y byddai'r Opsiwn maent wedi'i ddewis yn cael llai o effaith ar allyriadau, llygredd a'r amgylchedd. Yr ail reswm mwyaf poblogaidd oedd eu bod yn teimlo y gallai'r llwybr arall wella gwytnwch y rhwydwaith.

*Cwestiwn 15 – I ba lleoliad arddangos yr aethoch chi?*

Lleoliad Ewloe (57.1%)  
Lleoliad Cei Connah (13.9%)  
Ymwelais â lleoliadau Ewloe a Chei Connah (17.3%)  
Lleoliad Llaneurgain (7.1%)  
Ymwelais â'r tair arddangosfa (0.4%)

Wnes i ddim ymweld ag arddangosfa (17.3%)

#### *Cwestiwn 16 – Byddem yn gwerthfawrogi eich adborth ar yr arddangosfa?*

Cynigiodd rhai o'r ymatebwyr adborth ar y ffordd y cafodd arddangosfeydd yr ymgynghoriad cyhoeddus eu hysbysebu, pa mor addas oedd y lleoliadau, sut oedd deunyddiau'r arddangosfa wedi cael eu trefnu a pha mor addas oeddent. Bydd y rhain yn cael eu defnyddio fel sylfaen ar gyfer digwyddiadau ymgynghori'r dyfodol.

#### *Cwestiwn 17 – Sut y gwnaethoch glywed am yr ymgynghoriad hwn?*

- a) Llythyr (28%)
- b) Radio lleol (2.1%)
- c) Gan bobl eraill (42.4%)
- d) Poster lleol (16%)
- e) Hysbyseb mewn papur newydd (11.5%)

### **Safbwyntiau Rhanddeiliaid a Sefydliadau eraill**

- 4.2 Fe wnaeth **Cyngor Sir y Fflint** ymateb a nodi at ei gilydd, mai'r llwybr mwyaf buddiol i'r Sir a rhanbarth ehangach Gogledd Cymru fyddai'r Opsiwn Coch. Mae Cyngor Sir y Fflint yn nodi y dylid cynnwys nifer o elfennau ychwanegol (y mae rhai ohonynt wedi'u cynnwys yn yr Opsiwn Glas) er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cynllun cyffredinol.
- 4.3 Yn ymateb **Cyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chyngor Caer (CW&CC)** roddent yn croesawu'r camau mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gyflwyno cynigion i fynd i'r afael â'r problemau sy'n gysylltiedig â'r llwybr hwn, ac wrth wneud hynny, yn helpu i gefnogi nodau twf ac adfywio a fydd yn fanteisiol i ddwy ochr y ffin. Mae CW&CC yn ystyried mai'r Opsiwn Coch yw'r llwybr gorau i fwrw ymlaen gydag ef.
- 4.4 Mae **Cyngor Tref Treffynnon** wedi mynegi barn i gefnogi unrhyw opsiwn sy'n cryfhau'r cysylltiadau cymdeithasol ac economaidd o'r dref i Ystad Ddiwydiannol Glannau Dyfrdwy, Caer a thu hwnt ac maent wedi gofyn am ystyried lôn araf i gerbydau nwyddau trwm yn debyg i'r system ffordd a ddefnyddir ar allt Rhualt yr A55.
- 4.5 Fe wnaeth **Cyngor Cymuned Llanelwain** ymateb i'r ymgynghoriad a nodi eu bod yn gwrthwynebu'r opsiwn coch a'r opsiwn glas ac wedi gofyn am ystyried trydydd llwybr, Opsiwn Gwyrdd.
- 4.6 Ymatebodd **Gyngor Tref Fflint** i'r ymgynghoriad drwy wrthod yr Opsiwn Coch a nododd fod yr achos dros yr opsiwn Glas yn ormod o waith.
- 4.7 Ymatebodd **Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr – Clwyd a Sir Drefaldwyn** i'r ymgynghoriad ac mae'n cefnogi'r Opsiwn Glas.
- 4.8 Ymgynghorwyd â **Highways England (HE)** ac maent wedi archwilio goblygiadau cynigion yr astudiaeth o ran gweithrediad a diogelwch y rhwydwaith ffordd strategol sy'n cael ei reoli gan Highways England yn y dyfodol. Nid yw HE wedi nodi pa opsiwn

mae'n ei ffafrio, ond nodwyd y pryderon sydd ganddynt am yr Opsiwn Coch y maent wedi cadarnhau y gellir mynd i'r afael â nhw wrth i'r cynllun gael ei ddatblygu yn y cam nesaf.

- 4.9 Mae ymateb **Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru** yn nodi bod y bwrdd yn cydnabod bod angen gwella rhwydwaith presennol ffordd Glannau Dyfrdwy yr A55 / A494 ar frys er mwyn cynnal y lefelau economaidd yng Ngogledd Cymru nawr ac yn y dyfodol ac mai'r Llwybr Coch yw'r opsiwn mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn ei ffafrio.
- 4.10 Soniodd **Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)** am yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol a'r Asesiad o Oblygiadau ar Safleoedd Ewropeaidd ar gyfer y ddau lwybr ac mae wedi nodi statws Safleoedd Ewropeaidd o Ardal Cadwraeth Arbennig y mae'r gwaith yn debygol o effeithio'n sylweddol arnynt. Mae CNC wedi nodi eu gofynion yng nghyswllt yr asesiadau pellach sy'n ofynnol fel rhan o gam nesaf y broses o ddatblygu opsiwn y llwybr a ddewisir.
- 4.11 Cyflwynodd **Natural England** sylwadau am yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol a'r Asesiad o Oblygiadau ar Safleoedd Ewropeaidd ar gyfer y ddau lwybr a ddewisir a chynghorodd ei bod yn debygol y bydd effeithiau sylweddol ar y ddau Safle Ewropeaidd canlynol sydd wedi'u dynodi fel Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ar gyfer y ddau ddewis llwybr. Mae Natural England wedi nodi eu gofynion yng nghyswllt yr asesiadau pellach sy'n ofynnol fel rhan o gam nesaf y broses o ddatblygu opsiwn y llwybr a ddewisir.
- 4.12 Roedd ymateb **Sustrans** yn nodi y dylid ystyried trefniadau teithio gweithredol gwell ochr yn ochr â'r cynllun ac yn sgil y cynllun, dylid ystyried hyn yn y cam cynllunio cynnar er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a'r buddion i'r cymunedau lleol y mae'r cynllun yn effeithio arnynt. Mae Sustrans yn derbyn bod yr ymgynghoriad hwn a chynigion y cynllun amlinellol yn gam cynnar iawn yn y broses ddatblygu ac mae wedi awgrymu rhestr o welliannau y byddai angen eu hystyried gan gyfeirio at y ddau ddewis llwybr.

## 5 CANLYNIADAU

- 5.1 Ystyriwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus fel un effeithiol oherwydd iddo ennyn llawer o ddiddordeb gyda 1,104 o bobl yn bresennol yn arddangosfeydd yr ymgynghoriad cyhoeddus, a chafodd llawer o holiaduron ac ymatebion ysgrifenedig eu dychwelyd.
- 5.2 Mae'r dadansoddiad o'r holiaduron yn dangos bod cefnogaeth glir i wella'r coridor.

### **Y camau a gymerwyd yn dilyn y sylwadau a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus**

Fe wnaethom wrando'n ofalus ar y safbwyntiau a fynegwyd a chynnal rhagor o waith, fel y disgrifir isod:

Trefniadau'r gyffordd gerllaw Fferm Solar Shotwick.

Fe wnaethom ymchwilio i drefniadau gwahanol ar gyfer y gyffordd gerllaw Fferm Solar Shotwick yn dilyn sylwadau gan weithredwr a pherchennog tir y fferm solar. Drwy ad-drefnu trefniadau'r gyffordd, bydd llai o effaith ar y fferm solar. Bydd rhagor o ymgynghori â'r busnesau hyn yn ystod cam nesaf y broses o ddylunio'r datblygiad er mwyn sicrhau bod unrhyw effeithiau ar y fferm solar yn cael eu lleihau.

### Opsiwn Gwyrdd

Cyflwynwyd Opsiwn Gwyrdd gan nifer o ymatebwyr i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus. Mae'r Opsiwn Gwyrdd yn cynnig newid yr arwyddion ar gyffordd yr M53 (C11)/M56 (C15) er mwyn ceisio annog traffig i Ogledd Cymru i wyro ar yr M53/A55 i'r dwyrain ac i'r de o Gaer. Tra mae'r M53/A55 yn llwybr gwahanol i'r M56 i Ogledd Cymru, mae 8.6 km (46%) yn hirach na'r llwybr drwy'r A494 ac yn wynebu tagfeydd yn ystod cyfnodau prysur felly ni chredir y byddai'r Opsiwn Gwyrdd yn bodloni amcanion y cynllun.

## **6 Y RHESYMAU DROS DDEWIS Y LLWYBR A FFEFRIR**

- 6.1 Mae llawer o gefnogaeth i wella'r problemau trafndiaeth yn ardal Glannau Dyfrdwy gydag 83% o'r ymatebwyr yn nodi ei bod yn bwysig gwella'r rhwydwaith trafndiaeth yn yr ardal.
- 6.2 Yr Opsiwn Coch yw'r dewis mwyaf poblogaidd o'r tri, gyda thri chwarter yr ymatebwyr yn ei ddewis. Mae'r Opsiwn Glas yn cael ei ffafrio gan ychydig dan chwarter yr ymatebwyr, gyda lleiafrif o'r ymatebwyr yn dewis Peidio â gwneud dim.
- 6.3 Daeth arfarniad WelTAG i'r casgliad mai'r Opsiwn Coch sy'n perfformio orau yn erbyn yr amcanion cynllunio trafndiaeth. Mae'r Opsiwn Coch yn darparu mwy o fuddion o ran amser teithio i draffig busnes a chymudo o'i gymharu â'r Opsiwn Glas ac mae'r Opsiwn Coch yn cynnig buddion gwell i'r gymhareb cost.

## **7 PENDERFYNIAD YSGRIFENNYDD Y CABINET**

- 7.1 Ar ôl ystyried agweddau technegol, cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y cynllun hwn a chanlyniad yr ymgynghoriad cyhoeddus, mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi penderfynu:
  - Mabwysiadu'r Opsiwn Coch fel yr Opsiwn a Ffefrir er mwyn mynd i'r afael â'r problemau trafndiaeth a nodir yn Astudiaeth Cyfnod Allweddol 2 Gwella Coridor Glannau Dyfrdwy yr A55/A494/A548;
  - Cyhoeddi Cynllun TR111 (Atodiad B) i ddiogelu'r Llwybr Coch at ddibenion cynllunio.
- 7.2 Mae'r TR111 yn dangos y Llwybr a Ffefrir fel llinell ddu lydan. Dim ond at ddibenion dangosol mae'r llinell hon ac mae'n bosibl y bydd yn newid rhywfaint yn ystod cam nesaf y broses ddylunio.



## **8 DIOGELU'R LLWYBR A FFEFRIR**

- 8.1 Drwy gyhoeddi cynllun TR111, rydym yn diogelu'r llwybr dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) 1995. Mae hyn yn golygu y bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn cyfeirio pob cais cynllunio yn y dyfodol sydd gerllaw'r Llwybr a Ffefrir at Lywodraeth Cynulliad Cymru. Gallwch chi arolygu'r cynllun TR111 yn swyddfeydd Cyngor Gwynedd, yn Neuadd y Sir, ac yn ein swyddfeydd yng Nghyffordd Llandudno, Conwy.
- 8.2 Mewn rhai amgylchiadau, mae'n bosibl y caiff unrhyw berchennog sy'n cael trafferth gwerthu eiddo ar linell y llwybr wneud cais am falltod. Os bydd unrhyw achos yn bodloni'r meini prawf penodol hynny, fe fyddwn ni'n prynu'r eiddo.
- 8.3 Nid yw diogelu Llwybr a Ffefrir yn ein hymrwymo ni i linell y llwybr hwnnw. Dim ond ar ôl cyflwyno'r Gorchymyn Llinell y byddwn wedi ymrwymo, sy'n cael ei ddisgrifio yn yr adran nesaf.

## **9 BETH SY'N DIGWYDD NESAF**

- 9.1 Byddwn yn ymchwilio ymhellach ac yn dylunio'r cynllun yn fwy manwl – a elwir yn Ddyluniad Rhagarweiniol. Yn benodol, byddwn yn ystyried y materion amgylcheddol a pheirianeg yn fwy manwl, gan ystyried strategaeth cyffordd a dewisiadau ar gyfer ffyrdd ymyl a mynedfeydd.
- 9.2 Ar ôl y Dyluniad Rhagarweiniol, byddwn yn cyhoeddi Gorchmynion drafft dan Ddeddf Priffyrdd 1980 a Deddf Caffael Tir 1981. Mae'r Gorchmynion drafft yn cynnwys pwerau i sefydlu llinell, addasu'r ffyrdd ymyl, prynu tir a gweithredu unrhyw hawliau eraill y mae eu hangen arnom er mwyn cyflawni'r cynllun. Bydd cyfnod pan fydd pobl sydd â diddordeb yn y cynigion, neu y gallai'r cynigion effeithio arnynt yn gwrthwynebu ac yn awgrymu cynigion gwahanol hyd yn oed. Oni fydd modd i ni ddatrys y gwrthwynebiadau hyn, ac yn dibynnu ar y materion a godir a pha mor gryf yw'r gwrthwynebiad, efallai y byddwn yn cynnal Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus. Byddai Arolygydd annibynnol yn gwrandao ar y dystiolaeth ac yn ei hystyried gan gyflwyno argymhelliad i Ysgrifennydd y Cabinet i'w ystyried wrth benderfynu cyflwyno'r Gorchmynion ai peidio.
- 9.3 Mae'r cynllun yn "brosiect perthnasol" dan Reoliad 48 (1) (a) Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol ac ati) 1994 (SI 1994/Rhif 2716) yng nghyswllt Erthygl 6(3) Cyfarwydddeb Cynefinoedd yr UE 92/43/EEC. Mae hyn yn golygu y byddwn yn cynnal Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ac yn llunio Datganiad Amgylcheddol. Byddwn yn cyhoeddi hyn ynghyd â datganiad i lywio penderfyniad Asesiad Priodol ar yr un adeg ag y byddwn yn cyhoeddi'r Gorchmynion drafft.

**ATODIAD A**

**LLYFRYN A HOLIADUR YR YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS**

**ATODIAD B**

**CYNLLUN Y LLWYBR A FFEFRIR - TR111**